

**Blaenoriaeth Strategol:** (Beth) Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

**Blaenoriaeth Datblygu** (*Byddwn yn*): Safonau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion

Camau Allweddol ( <i>erbyn...</i> )	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pa bryd	Meini Prawf / Mesur Liwyddiant – (Sut ydym ni'n gwybod pan ydym wedi cyflawni'r cam allweddol?) <i>Dangosydd Perfformio / Cam y byddwch yn ei gymryd / neu'r ddau</i>	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Statws CAG a Thueddiad	Sylwadau ar Risgiau a Lliniaru'r Risgiau	CAG Risg a Thueddiadau
Cydymffurfio gyda'r Protocol ar gyfer Hunanreoleiddio a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 4.3.10	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o'r Panelau a sefydlwyd gan y Pwyllgor Safonau dan y Protocol ar gyfer Hunanreoleiddiad yn dilyn cais gan Arweinydd Grŵp					↔	<p><b>Risg</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Anghydfodau yn dwysau</li> <li>2. Camymddwyn mewn cyfarfodydd</li> <li>3. Camddefnyddio'r cyfryngau</li> <li>4. Cwynion "Talu'r pwyth yn ôl" i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)</li> </ol> <p><b>Lliniaru</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyfarfodydd arbennig i hwyluso</li> <li>2. Cwynion gan Aelodau am Aelodau – trefn i'w chyhoeddi gan OGCC – Mai 2012</li> </ol>	
Adroddiadau Chwarterol i'r Pwyllgor Safonau	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Gostyngiad yn nifer y cwynion i'r Ombwdsmon o gymharu â'r un chwarter yn 2010/11.					↔	<p><b>Risg</b></p> <p>Difrodi enw da.</p> <p><b>Lliniaru</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hyfforddiant a datblygiad parhaus</li> <li>2. Protocolau ar gyfer Penderfyniad</li> <li>3. Cyfarfodydd gydag Arweinyddion Grwpiau gyda'r Prif Weithredwr</li> </ol>	
Swyddog Monitro yn derbyn disgrifiadau swydd a manylebau person wedi eu harwyddo	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o ddisgrifiadau swydd cyfredol a manylebau personol dilys ym mhob chwarter.					↔	<p><b>Risg</b></p> <p>Cyndynrwydd i newid a phroffesiynoli Aelodau</p> <p><b>Lliniaru</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymyrraeth gan Arweinyddion Grwpiau/Cadeiryddion</li> <li>2. Gweithgor Datblygu Aelodau</li> </ol>	

**Blaenoriaeth Strategol:** (Beth) Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

**Blaenoriaeth Datblygu** (*Byddwn yn*): Safonau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion

Camau Allweddol ( <i>erbyn...</i> )	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pa bryd	Meini Prawf / Mesur Liwyddiant – (Sut ydym ni'n gwybod pan ydym wedi cyflawni'r cam allweddol?) <i>Dangosydd Perfformio / Cam y byddwch yn ei gymryd / neu'r ddau</i>	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Statws CAG a Thuedd iad	Sylwadau ar Risgiau a Lliniaru'r Risgiau	CAG Risg a Thueddiadau
AD yn derbyn ffurflenni gwiriad SCT uwch	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o'r Aelodau wedi cyflwyno gwybodaeth lawn sydd raid wrthi ar gyfer gwiriadau SCT uwch					↑	<p><b>Risg</b> Peth cyndynrwydd i newid a phroffesiynoli Aelodau.</p> <p><b>Lliniaru</b> 1. Ymyrraeth gan Arweinyddion Grwpiau/Cadeiryddion 2. Gweithgor Datblygu Aelodau</p>	
Cyfweliadau ADP wedi eu cynnal a'r adain AD wedi derbyn profformas	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	20 o ADP wedi eu cwblhau yn unol â'r cynllun peilot, erbyn Rhagfyr 2011					↑	<p><b>Risg</b> 1. Cyndynrwydd i newid a phroffesiynoli aelodau. 2. Beirniadaeth gan Reoleiddwyr</p> <p><b>Lliniaru</b> 1. Cylchredeg templedi 2. Trefnu sesiynau briffio 3. Cymorth Swyddog</p>	
Adolygu a chytuno ar Brotocol Cydberthynas Aelodau / Swyddogion	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Cynhelir adolygiad 14 Rhagfyr 2011. Mabwysiadu Protocol diwygiedig gan y Cyngor lawn dim hwyrach na Mai 2012					↔	<p><b>Risg</b> Colli cyfle i atgyfnerthu mater adfer allweddol cyn Mai 2012.</p> <p><b>Lliniaru</b> 1. Penderfyniad lleol ynghylch Aelodau / Swyddogion 2. Hyfforddiant</p>	

**Blaenoriaeth Strategol:** (Beth) Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

**Blaenoriaeth Datblygu** (*Byddwn yn*): Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor

Camau Allweddol ( <i>erbyn...</i> )	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pa bryd	Meini Prawf / Mesur Liwyddiant – (Sut ydym ni'n gwybod pan ydym wedi cyflawni'r cam allweddol?) <i>Dangosydd Perfformio / Cam y byddwch yn ei gymryd / neu'r ddau</i>	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Statws CAG a Thuedd iad	Sylwadau ar Risgiau a Lliniaru'r Risgiau	CAG Risg a Thueddiadau
Cynnal gwrandawriad rhagarweiniol cyn pen 6 wythnos i dderbyn cyfeiriad gan OGGC neu yn dilyn penderfyniad gan yr Is-Bwyllgor Indemniadau	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o'r gwrandawriad rhagarweiniol o fewn yr amserlen.					↔	<p><b>Risg</b> – diffyg ymateb amserol i adroddiadau OGGC yn achosi difrod i enw'r Cyngor ac yn andwyol i faterion llywodraethu.</p> <p><b>Lliniaru</b> – 1. Mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer yr Is-Bwyllgor 2. Mabwysiadu gweithdrefn newydd ar gyfer gwrandawriadau.</p>	
Cynnal gwrandawriadau i geisiadau am ganiatâd arbennig cyn pen mis i'w derbyn	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o'r ceisiadau yn cael eu penderfynu o fewn yr amserlen					↔	<p><b>Risgiau</b> - Aelodau/cyhoedd yn colli hawliau</p> <p><b>Lliniaru</b> – 1. Cyngor rhagarweiniol a drafftio gan y Swyddog Monitro 2. Cyfarfodydd arbennig 3. Sefydlu Panelau</p>	
Adolygu'r ddwy Gofrestr o Diddordebau Aelodau a rhoi cyngor ac arweiniad wedyn, os yw'n briodol	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Cynnal adolygiadau o'r ddwy bob blwyddyn					↔	<p><b>Risg</b> – 1. Diffyg rôl sicrwydd ar gyfer y cyhoedd. 2. Agwedd hunanfodlon gan Aelodau 3. Baich sylweddol i'r Pwyllgor Safonau</p> <p><b>Lliniaru</b> – 1. Cyhoeddi'r canlyniadau 2. Cyhoeddi rhybuddion cyngorol 3. Rhannu'r gwaith ymysg yr Aelodau cyfetholedig</p>	
Goruchwyllo'r Gofrestr o Roddion a Lletygarwch a rhoi cyngor ac arweiniad, os yw'n briodol	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Cynnal adolygiadau bob blwyddyn					↔	<p><b>Risg</b> – 1. Diffyg rôl sicrwydd ar gyfer y cyhoedd. 2. Agwedd hunanfodlon gan Aelodau 3. Baich sylweddol i'r Pwyllgor Safonau</p>	



**Blaenoriaeth Strategol:** (Beth) Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

**Blaenoriaeth Datblygu** (*Byddwn yn*): Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor

Camau Allweddol ( <i>erbyn...</i> )	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pa bryd	Meini Prawf / Mesur Liwyddiant – (Sut ydym ni'n gwybod pan ydym wedi cyflawni'r cam allweddol?) <i>Dangosydd Perfformio / Cam y byddwch yn ei gymryd / neu'r ddau</i>	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Statws CAG a Thuedd iad	Sylwadau ar Risgiau a Lliniaru'r Risgiau	CAG Risg a Thueddiadau
									<p><b>Lliniaru</b> – 1. Cyhoeddi'r canlyniadau</p> <p>2. Cyhoeddi rhybuddion o gyngor.</p> <p>3. Rhannu'r gwaith ymysg yr Aelodau cyfetholedig</p>	
Adolygu Protocol y Cyngor ar gyfer y gydberthynas rhwng Aelodau a Swyddogion	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Argymhell Protocol newydd i'r Cyngor llawn/Llywodraeth Cymru erbyn diwedd Chwarter 4					↔	<p><b>Risg</b> - Colli cyfle i atgyfnerthu mater adfer allweddol cyn Mai 2012</p> <p><b>Lliniaru</b> – Penderfyniad lleol ynghylch Aelodau/Swyddogion</p> <p>2. Hyfforddiant</p>	
Sefydlu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau i adolygu polisiâu sy'n berthnasol i'w faes gwaith	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	100% o'r polisiâu yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol/swyddog a wnaeth y cais.					↔	<p><b>Risg</b> – 1. Colli barn annibynnol</p> <p>2. Rôl i warchod diddordebau grŵp/ grwpiau gwrthbleidiol lleiafrifol.</p> <p><b>Lliniaru</b> – 1. Cyfarfodydd arbennig</p> <p>2. Arbenigwyr yn bresennol i gynghori.</p>	
Adolygu'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer Aelodau a phresenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi ac ati.	LB	Ebrill 2011 – Mawrth 2012	Cwblhau'r adolygiad a'r Pwyllgor Safonau yn rhoi rhybuddion cynghorol i 100% o'r Aelodau nad ydynt yn dangos ymrwymiad digonol i'r datblygiad					↔	<p><b>Risg</b> – Dim cynnydd / colli cyfleon datblygu</p> <p><b>Lliniaru</b> –</p> <p>1. Adolygiadau Datblygiad Personol</p> <p>2. Dulliau amgen ar gyfer 'hyfforddi'</p> <p>3. Cyfarfodydd preifat "wyneb yn wyneb" o Banel o'r Pwyllgor Safonau i ddatrys unrhyw faterion.</p>	

**Blaenoriaeth Strategol:** (Beth) Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr

**Blaenoriaeth Datblygu** (*Byddwn yn*): Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol

Camau Allweddol ( <i>erbyn...</i> )	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pa bryd	Meini Prawf / Mesur Liwyddiant – (Sut ydym ni'n gwybod pan rydym wedi cyflawni'r cam allweddol?) <i>Dangosydd Perfformio / Cam y byddwch yn ei gymryd / neu'r ddau</i>	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4	Statws CAG a Thuedd iad	Sylwadau ar Risgiau a Lliniaru'r Risgiau	CAG Risg a Thueddiadau
Cydydffurfio gyda'r Protocolau Rheolaeth Wleidyddol fel y cawsant eu mabwysiadu a'u hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2011.	LB	Mawrth 2011 – Mai 2012	Dim adroddiadau gan swyddogion statudol i'r Comisiynwyr yn rhoi gwybod am dorri Protocol.					↓	<p><b>Risg</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pwyllgorau yn parhau i weithredu yn groes i'r Protocol Dyraniadau.</li> <li>2. Ansefydlogrwydd Gwleidyddol, yn arbennig pan fydd yr ymyrraeth gyfredol am ddedd i ben.</li> <li>3. Beirniadaeth gan Reoleiddwyr/ Llywodraeth Cymru</li> </ol> <p><b>Lliniaru</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymyrraeth gan Gomisiynwyr</li> <li>2. Trafod cytundeb newydd fel rhan o'r adolygiad cyfansoddiadol.</li> </ol>	

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Safonau</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>14 Rhagfyr 2011</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>Themâu Llywodraethu Corfforaethol – Adroddiad ar yr Ail Chwarter</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	<b>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau</b>

1. Mae'r Comisiynwyr wedi cyhoeddi Blaenoriaethau Strategol, sef eu blaenoriaethau ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol.
2. Tair elfen bwysig o'r blaenoriaethau datblygu hyn yw:

- (a) Safonau ymddygiad Aelodau a Swyddogion
- (b) Effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor
- (c) Y Berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol

Ynghlwm, mae copïau o'r tri adroddiad ar gyfer ail chwarter y flwyddyn ariannol, h.y. hyd at ddiwedd mis Medi 2011. Daw'r trydydd chwarter i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2011 a bydd yr adroddiadau'n cael eu paratoi yn gynnar ym mis Ionawr.

3. Yr adroddiadau yw adroddiadau gwaith gan y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru.
4. Dygir sylw'r Pwyllgor at y camau gweithredu allweddol sydd yn y golofn ar y chwith ym mhob un o'r adroddiadau ac yn arbennig felly at y risgiau a'r sylwadau ar liniaru'r risgiau hynny yn y golofn ar y dde.